



Amos

Casgliad yw llyfr Amos, o broffwydoliaethau yn bennaf, wedi eu cyflwyno gan y proffwyd Amos i Deyrnas Gogledd Israel a'i brenin yn yr 8fed ganrif Cyn Crist. Yn ogystal â phroffwydoliaethau mae hefyd ychydig dameidiau o Salmau a disgrifiad o wrthdaro rhwng Amos, Amaseia yr offeiriad a'r brenin Jeroboam. Tra bo'r rhan fwyaf o broffwydoliaethau Amos yn seiliedig ar eiriau, mae hefyd rhai gweledigaethau trawiadol. Yn ei broffwydoliaethau pryder mawr Amos yw'r ffordd mae'r cyfoethog yn gormesu'r tlawd wrth addoli Duw ac yn credu mai eu haberthau oedd yr unig beth roedd Duw ei eisiau.



Pa mor hir wnaiff o gymryd?

Amser darllen: 25 munud
Yn brin o amser? Darllenwch yn unig
1.1-15; 7.1-17; 9.11-15



Dosbarth

Proffwydoliaeth



Unrhyw beth anodd?

Fel gyda llawer o lyfrau proffwydol, gall llid Duw deimlo'n galed i ddelio ag ef. Gall helpu i gofio mai pledio ar yr unfed awr ar ddeg yw hyn i geisio cael pobl i wrando a newid eu ffyrdd.



Dyfyniadau i ysbrydoli

²¹Yr wyf yn casáu, yr wyf yn ffeiddio eich gwyliau; nid oes imi bleser yn eich cymanfaoedd. ²²Er i chwi aberthu i mi boethoffrymau a bwydoffrymau, ni allaf eu derbyn: ac nid edrychaf ar eich hedd-offrymau o'ch pasgedigion. ²³Ewch â swm eich caneuon oddi wrthyf: ni wrandawaf ar gainc eich telynau. ²⁴Ond llifed barn fel dyfroedd a chyfiawnder fel afon gref.
(Amos 5.21-24)

"Wele'r dyddiau yn dod," medd yr Arglwydd Dduw, pan anfonaf newyn i'r wlad; nid newyn am fara, na syched am ddŵr, ond am glywed geiriau'r Arglwydd."
(Amos 8.11)

¹³"Wele'r dyddiau yn dod" medd yr Arglwydd, "pan fydd yr un sy'n aredig yn goddiweddyd y sawl sy'n medi, a'r sawl sy'n sathru'r grawnwin yn goddiweddyd y sawl sy'n hau'r had; bydd y mynyddoedd yn diferu gwin newydd, a phob bryn yn llifo ohono. ¹⁴Adferaf lwyddiant fy mhobl Israel, ac adeiladant y dinasoedd adfeiliedig, a byw ynddynt; plannant winllannoedd ac yfed eu gwin, palant erddi a bwyta'u cynnyrch.
(Amos 9.13-14)



Ynglŷn â'r Awdur

Fel gyda llawer o lyfrau proffwydol credir mai geiriau Amos yw'r rhain, er y gallent fod wedi cael eu casglu a'u hysgrifennu gan rywun arall.

Beth wyddom ni amdano?

Nid oedd Amos yn broffwyd yn yr ystyr ffurfiol - dywedodd hynny yn 7.14. Yn lle hynny roedd yn fugail a garddwr coed sycamorwydden (adwaenir coed sycamorwydden hefyd fel ffigysbren sycamorwydden; ac roedd garddwr coed sycamor yn tyllu'r ffrwythau cyn cynaeafu i helpu'r ffrwyth i aeddfedu). Nid oedd yn cael ei dalu fel proffwyd ond roedd wedi ei anfon gan Dduw gyda neges glir i Jeroboam, o Jwda, y deyrnas ddeheuol ble cafodd ei eni i Israel, y deyrnas ogleddol. Mwy na thebyg fod hyn wedi digwydd tua 750 Cyn Crist. Roedd y cyfnod pan oedd yn proffwydo yn gyfnod o heddwch a ffyniant lle'r oedd y cyfoethog wedi tyfu mor hunanfodlon nes iddynt gredu mai'r unig beth y disgwylid oddi wrthynt oedd aberthu i Dduw. Roedd neges Amos yn syml - mae Duw yn gofyn am gyfiawnder yn ogystal ag addoliad.



Cadwch lygad am...

Nid yn erbyn Israel yn unig roedd Amos yn proffwydo ond yn erbyn llawer o wahanol genhedloedd oedd yn amgylchynu Israel (gan gynnwys Jwda). Chwliwch am y gwahanol farnedigaethau a gyhoeddir, a myfyriwch ar yr hyn oedd yn digwydd yn y rhanbarth ar y pryd. Mae llyfr Amos hefyd yn cynnwys nifer o weledigaethau, myfyriwch ar y rhain wrth i chi ddarllen, a gwelwch pa mor effeithiol rydych chi'n credu eu bod fel dull o gyfathrebu. Pryder penodol Amos oedd y gred mai addoli Duw oedd yr unig beth roedd gofyn i bobl ei wneud i fod mewn perthynas ag Ef. Gwylwch y cyswllt rhwng addoli a chyfiawnder yn yr hyn a ddywed Amos.



Sut cafodd ei strwythuro?

1.1-2	Cyflwyniad agoriadol
1.3-2.16	Barnedigaethau yn erbyn cenhedloedd sy'n amgylchynu Israel
3.1-6.14	Barnedigaethau yn erbyn Israel
7.1-9.10	Pum gweledigaeth o farn gan gynnwys gwrthdaro rhwng Amos a Jeroboam
9.11-15	Gobaith am y dyfodol



Ynglŷn â'r cyfnod

Bu'r rhan fwyaf o'r 8fed ganrif Cyn Crist yn gyfnod o heddwch a ffyniant mawr. Erbyn diwedd y ganrif fodd bynnag credir fod y llewyrch yn dechrau gostwng. Gall hyn efallai egluro problem gorthrwm a welwn yn llyfr Amos. Pan oedd llai o gyfoeth nag a fu, yn aml mae'r cyfoethog yn dal ar eu cyfoeth ar draul y tlawd.

Beth oedd pobl yn ei deimlo?

Awgryma llyfr Amos fod y cyfoethog yn teimlo'n hunanfodlon a'r tlawd yn anobeithiol.

Llyfrau eraill wedi'u gosod tua'r cyfnod yma

Eseia, Hosea, Micha



Pa fath o Lyfr ydy o?

Proffwydoliaeth. Casgliad o broffwydoliaethau yw Amos, sydd hefyd yn cynnwys adroddiad hunan gofiannol am y gwrthdaro rhwng Amos a Jeroboam, brenin Israel ar y pryd, ac ychydig o dameidiau o'r Salmau.



Beth allai hyn ei olygu i mi?

Pryder penodol Amos oedd sut roedd y cyfoethog yn trin y tlawd. Pe baem yn addasu'r hyn ddwedodd Amos at ein canrif ni, pa arferion yn arbennig ydych chi'n gredu y byddai'n eu beirniadu?



Cwestiynau grŵp trafod

- Oedd yna unrhyw rannau o'r llyfr roeddech chi'n arbennig o hoff ohono neu wnaeth eich ysbrydoli?
- Oedd yna unrhyw rannau o'r llyfr nad oeddech yn ei hoffi neu oedd yn eich poeni?
- Beth oeddech *chi'n* ei gredu roedd y llyfr yn ei drafod?
- Beth yw eich barn chi am broffwydoliaethau Amos? Oedden nhw'n ysbrydoli neu'n eich cadw hyd braich? Sut ydych chi'n credu y byddech chi efallai'n ymateb pe bai rhywun yn proffwydo mewn ffordd debyg heddiw?
- Dychmygwch fod Amos yn edrych ar yr eglwys Gristnogol heddiw, beth tybed fyddai'n ei ddweud wrthym ni am addoli a chyfiawnder?
- Roedd ychydig o arferion yn ystod ei ddydd oedd yn taro Amos fel bod yn anghyfiawn (byddwch wedi sylwi ar ychydig wrth i chi ddarllen), pa arferion cyfoes y credwch sy'n haeddu'r un math o feirniadaeth heddiw? A beth ddylech chi wneud ynglŷn â nhw?
- Wnaethoch chi ddarllen unrhyw beth yn y llyfr wnaeth eich cyffwrdd, ehangu eich ffydd neu wneud i chi feddwl yn ddyfnach am eich bywyd a sut rydych yn ei fyw?



Gallwch drydar lluniau, storïau neu gwestiynau o'ch clwb llyfrau gan ddefnyddio'r hashnod [#clwblyfrauibeibl](#) a tag [@cymybeibl](#).

Dod â'r Beibl yn **fyw**

B Cymdeithas
y Beibl